



**Adroddiad ar Geisiadau a Dyfarniadau'r DU ar
gyfer Achrediad y Gwasanaeth Archifau:
Ystadegau a Chanlyniadau
(Mehafin 2014-Mai2015)**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o gyflwyniad [Achrediad y Gwasanaeth Archifau](#) ar draws y DU ers ei lansio ym mis Mehefin 2013, gyda ffocws penodol ar y cyfnod cyflwyno rhwng mis Mehefin 2014 a mis Mai 2015. Mae'n rhoi amlinelliad o berfformiad gwasanaethau archifau sy'n gwneud cais am Achrediad yn erbyn y [safon](#) ar lefel modiwl ac ar y lefel ofynnol, fel dangosydd rhagarweiniol o'r meysydd mwyaf cadarn ar draws archifau'r DU, a'r meysydd hynny sydd ag anghenion datblygu parhaus.

Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ganlynol:

- 1) Nifer y ceisiadau am Achrediad y Gwasanaeth Archifau ar draws y DU
- 2) Nifer y gwasanaethau archifau a dderbyniodd Achrediad y Gwasanaeth Archifau ar draws y DU
- 3) Y ceisiadau yn ôl math o wasanaeth archif
- 4) Ymweliadau dilysu a gynhaliwyd gan gyrff asesu
- 5) Cyflawniad ar y lefel modiwl
- 6) Cyflawniad ar y lefel ofynnol
- 7) Dadansoddiad o gamau gweithredu gofynnol a chamau gweithredu gwella
- 8) Tueddiadau sy'n datblygu yn y sector archifau.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfanswm y ceisiadau a adolygwyd ar gyfer Achrediad y Gwasanaeth Archifau gan [Banel Achredu'r Gwasanaeth Archifau](#). Nid yw'n cynnwys ceisiadau y cafodd eu hadolygiadau eu cyfeirio gan Banel, oherwydd nid oes gan y ceisiadau hynny ganlyniad neu lefel asesiad wedi'u cadarnhau.

Yn 2014-15 derbyniwyd nifer o geisiadau o dair o wledydd y DU, Cymru, Lloegr a'r Alban. Cyrff asesu gwledydd y DU yw:

- Llywodraeth Cymru, wedi'i chynrychioli gan CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, i Gymru
- Yr Archifau Cenedlaethol (TNA) i Loegr
- Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (PRONI) i Ogledd Iwerddon
- Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) a Chyngor yr Alban ar Archifau (SCA) i'r Alban

Mae'r atodiad yn cynnwys gwybodaeth ystadegol bellach ynglŷn ag Achrediad y Gwasanaeth Archifau ar gyfer 2013 hyd at fis Mai 2014, at ddibenion cyfeirio, pan nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ym mhrif destun yr adroddiad.

1) Nifer y ceisiadau ar gyfer Achrediad y Gwasanaeth Archifau

	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Nifer y Ceisiadau (2013 i fis Mai 2014)	14	12	0	1	1
Nifer y Ceisiadau (Mehefin 2014 i fis Mai 2015)	14	10	0	2	2
Cyfanswm Nifer y Ceisiadau (2013 i fis Mai 2015)	28	22	0	3	3

Ers i Achrediad y Gwasanaeth Archifau gael ei lansio ym mis Mehefin 2013, mae wyth ar hugain o wasanaethau archifau wedi cwblhau cais ar gyfer Achrediad y Gwasanaeth Archifau ar draws y DU – dau ar hugain yn Lloegr a thri gwasanaeth archif yr un yng Nghymru a'r Alban.

Roedd cyfanswm nifer y ceisiadau ar draws y DU yn 2014-15 yr un fath â 2013-14, er bod cynnydd bychan yn nifer y ceisiadau yng Nghymru a'r Alban a nifer ychydig yn is yn Lloegr.

Mae partneriaid y rhaglen wedi cytuno bod gwasanaethau archif yn Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw yn gymwys i gael Achrediad. Derbyniwyd cais gan Jersey Heritage am Achrediad y Gwasanaeth Archifau yn 2014-15 ac mae data o'r cais hwn wedi'i gynnwys gyda'r data ar gyfer gwasanaethau yn Lloegr.

2) Nifer y gwasanaethau archif a dderbyniodd statws achrededig

Panel Achredu'r Gwasanaeth Archifau sy'n dyfarnu Achrediad y Gwasanaeth Archifau. Mae tri chanlyniad posibl:

- Achrediad: Mae'r gwasanaeth archifau wedi dangos ei fod yn cyflawni'r safon
- Achrediad Dros Dro: Mae'r gwasanaeth archifau yn agos at gyflawni gofynion y safon. Dyfernir Achrediad Dros Dro am gyfnod o hyd at ddwy flynedd, er mwyn i un neu ddau o feysydd datblygiad arwyddocaol gael eu datrys.
- Dim Achrediad: Mae angen i'r gwasanaeth archifau ddatblygu mewn meysydd arwyddocaol cyn cyflawni'r safon.

<u>Mehfin 2014 i fis Mai 2015</u>	Cyfanswm	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Achrediad	12	8	0	2	2
Achrediad Dros Dro	0	0	0	0	0
Dim Achrediad	1	1	0	0	0

Dyfarwyd achrediad llawn i [ddeuddeg gwasanaeth archifau](#) gan Banel Achredu'r Gwasanaeth Archifau ac ni dderbyniodd un gwasanaeth archifau yn Lloegr achrediad. Cafodd un cais am Achrediad gan y Gwasanaeth Archifau o Loegr ei ohirio gan y Panel oherwydd newid arwyddocaol mewn amgylchiadau yn ystod y cyfnod cyflwyno cais.

Mae cyfanswm y gwasanaethau archifau a dderbyniodd achrediad rhwng 2013 a mis Mai 2015 yn atodiad A.

3) **Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau**

Mae Achrediad y Gwasanaeth Archifau'n defnyddio [graddadwyedd](#) i nodi'r mathau o wasanaethau archifau sy'n gwneud cais am yr achrediad, a rhoi amlinelliad o'r disgwyliadau ar gyfer gwahanol fathau a meintiau o wasanaethau archifau. Yma rydym yn rhannu dadansoddiad o'r mathau o wasanaethau archifau yn ôl y graddadwyedd hyn.

Ceisiadau yn ôl y math o wasanaeth archifau

<u>Mehfin 2014 i fis Mai 2015</u>	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Awdurdod lleol math 1	0	0	0	0
Awdurdod lleol math 2	5	0	0	2
Sector cyhoeddus arall math 1	0	0	0	0
Sector cyhoeddus arall math 2	3	0	2	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	0	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	0	0	0	0

Mae ceisiadau o'r gwasanaethau archifau y nodwyd eu bod yn perthyn i'r grŵp Awdurdod Lleol math 2 (sy'n cynnwys holl Fannau Adneuo'r awdurdod lleol, hyd yn oed os yw eu daliadau cyffredinol yn gymharol fach) yn cynrychioli canran arwyddocaol o'r holl ymgeiswyr (50%).

Yn Lloegr a'r Alban mae nifer eithaf arwyddocaol o geisiadau gan y 'Sector cyhoeddus arall math 2'. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cyrff cenedlaethol wedi'u ffurfio gan Ddeddfau Seneddol a chyrff eraill sydd â chylch gwaith cenedlaethol yn eu cyfansoddiad neu yn eu disgrifiad o'u daliadau ac, yn yr achos hwn, yn cynrychioli Cofnodion Cenedlaethol yr Alban, archifau prifysgolion ac archifau ysbytai. Ni chafwyd unrhyw ymgeiswyr graddfa 1 o unrhyw sector yn 2014-15, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu ym mlaenoriaethau hyfforddiant 2015-16, yn arbennig gweithio gyda grwpiau archif arbenigol, i sicrhau bod gwasanaethau llai yn cael y cyfle i gyfarwyddo eu hunain ag Achrediad a gweithio tuag ato.

Mae'r cynnydd yn nifer y ceisiadau o'r mathau o wasanaethau archifau o bob un o wledydd y DU yn adlewyrchu'r rhaglen gyflwyno arfaethedig yn y gwledydd hyn. Er enghraifft, i'r Gwasanaethau Archifau, fel corff asesu yn Lloegr, mae gwasanaethau archifo sy'n fannau adneuo yn un grŵp blaenoriaeth yn ystod y cam cyflwyno cychwynnol, ond mae gwasanaethau archifau a oedd yn anghymwys i gymryd rhan mewn cynlluniau safonol yn y gorffennol, yn cael eu hannog i wneud cais am achrediad yn unol ag amserlen y cytunwyd arni. Yn yr Alban, mae Cyngor yr Alban ar Archifau a Chofnodion Cenedlaethol yr Alban yn rheoli cynhwysedd asesu drwy dderbyn uchafswm o chwe chais y flwyddyn ar gyfer blynyddoedd cynnar y cynllun.

4) Nifer yr ymweliadau dilysu a gynhaliwyd

Wrth asesu cais ar gyfer Achrediad y Gwasanaeth Archifau, gall cyrff asesu ymweld â gwasanaeth archif yr ymgeisydd hefyd. Mae'r ymweliad hwn yn gyfle i'r asesydd ddilysu elfennau o'r cais, adolygu unrhyw ddogfennaeth nad ydynt yn addas i'w cyflwyno fel rhan o'r cais, a hefyd edrych o amgylch y safle.

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Cymru
Ie	100%	D/G	100%	100%
Na	0	D/G	0	0

Yng Nghymru a'r Alban, lle mae'r cyrff asesu wedi gwneud ymrwymiad i ymweld â phob un o'r gwasanaethau sy'n gwneud cais yn ystod pob rownd o'r broses Achredu, llwyddwyd i gyflawni hynny. Yn Lloegr, lle mae polisi i ymweld ag o leiaf 25% o'r gwasanaethau archifau sy'n gwneud cais ym mhob rownd. Mae'r Archifau Cenedlaethol wedi cyflawni 100% o ymweliadau gan y tîm asesu, oherwydd y nifer gymharol fach o ymgeiswyr yn ystod y cyfnod hwn a'r angen i hyfforddi'r tîmau asesu ac adolygu cyfoedion.

5) Cyflawniad ar y lefel modiwl

Mae pob ymgeisydd yn derbyn asesiad cyffredinol ym mhob un o'r tri modiwl yn y safon Achredu, yn ogystal ag asesiad manwl yn erbyn pob gofyniad neu is-ofyniad. Byddai 'Heb ei Gyflawni' mewn unrhyw fodiwl yn ei gwneud yn amhosibl dyfarnu Achrediad.

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	13	0	0
Casgliadau	11	1	1
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	13	0	0

Llwyddodd pob un o'r tri ar ddeg o wasanaethau archifau a gyflwynodd gais i gyflawni'r safon gyffredinol ar gyfer Iechyd Sefydliadol a hefyd y safon gyffredinol ar gyfer Rhanddeiliaid a'u Profiadau. Casgliadau yw'r maes gwanaf, gydag un o'r tri ar ddeg o wasanaethau archifau a aseswyd, wedi'i 'gyflawni'n rhannol' yn y modiwl hwn ac un ymgeisydd a aseswyd nad oedd wedi'i gyflawni.

Yn achos cais yr aseswyd nad oedd wedi'i gyflawni, barnwyd bod risgiau arwyddocaol, heb eu rheoli, i'r casgliadau, a oedd yn golygu nad oedd y gwasanaeth archifau yn cyflawni'r safon. Felly, ni ddyfarnwyd achrediad yn yr achos hwn.

Yn achos y gwasanaeth archifau yr aseswyd ei fod wedi'i 'gyflawni'n rhannol', ystyriwyd nad oedd gan y gwasanaeth archifau reolaeth ddigonol dros yr amodau yn eu hystafelloedd a'u manau storio i gyflawni'r newidiadau cadarnhaol a fyddai eu hangen i gyflawni'r safon yn llawn.

6) Cyflawniad ar y lefel ofynnol

Mae pob ymgeisydd hefyd yn derbyn asesiad penodol yn erbyn pob gofyniad neu is-ofyniad o'r safon. Mae hyn yn caniatáu dadansoddiad mwy manwl.

a) **Gofyniad: Iechyd Sefydliadol**

Mae Iechyd Sefydliadol yn gwirio'r meysydd hynny sy'n ategu'r prosesau hirdymor o brynu, cadw a hygyrchedd casgliadau archifau.

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Wedi'i gyflawni	Cyflawni'n rhannol	Heb ei gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	13	0	0
1.2 Llywodraethu	12	1	0
1.3 Blaengynllunio	12	1	0
1.4 Adnoddau: Eiddo	9	4	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	13	0	0

1.6 Adnoddau: Gweithlu	13	0	0
-------------------------------	----	---	---

Aseswyd bod pob un o'r tri ar ddeg o wasanaethau archifau a gyflwynodd gais wedi cyflawni tri o'r chwe gofyniad yn y modiwl hwn yn llawn. Y gofynion hynny yw **1.1. Datganiad Cenhadaeth, 1.5 Cyllid a 1.6 Gweithlu**. Roedd gan bob gwasanaeth ddatganiad bras o'u diben, roedd wedi gwneud cyfraniad effeithiol i'r prosesau o bennu cyllideb a chodi arian, ac roedd ganddynt staff wedi'u cymhwyso'n briodol a chymorth ar gyfer gwirfoddolwyr.

O ran y gofyniad **1.4 Adnoddau: Eiddo**, llwyddodd 70% o'r ymgeiswyr i gyflawni'r gofyniad hwn yn llawn. Pan nad oedd gwasanaethau archifau yn bodloni'r gofyniad hwn, mae hyn yn cynrychioli diffyg gofod i ehangu ar gyfer storio casgliadau – naill ai'n analog neu'n ddigidol – ac mewn rhai achosion diffyg gofod swyddfeydd cefn, sy'n cyfyngu ar y posibiladau i staff a/neu wirfoddolwyr weithio ar gasgliadau.

Ar gyfer gofyniad **1.3 Blaengynllunio**, aseswyd bod deuddeg o'r tri ar ddeg o wasanaethau archifau wedi cyflawni'r gofynion hyn yn llawn. Ystyriwyd bod gan un ymgeisydd gynlluniau ag uchelgais cyfyngedig ar gyfer y math hwn o wasanaeth.

2013 i fis Mai 2015

	Cyflawni'n rhannol	Heb ei gyflawni	Wedi'i gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	27	0	0
1.2 Llywodraethu	26	1	0
1.3 Blaengynllunio	24	3	0
1.4 Adnoddau: Eiddo	21	6	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	27	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	27	0	0

Mae'r asesiadau cronus ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a mis Mai 2015 yn adlewyrchu'r duedd ar gyfer y cyfnod rhwng Mehefin 2014 a Mai 2015.

b) Gofyniad: Casgliadau

Mae'r modiwl Casgliadau yn archwilio gallu gwasanaeth archifau i ddatblygu, cadw gwybodaeth am gasgliadau a gofalu am ei gasgliadau.

<u>Mehefin 2014 i fis Mai 2015</u>	Wedi'i gyflawni	Cyflawni'n rhannol	Heb ei gyflawni
1.1 Rheoli Casgliadau	13	0	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	13	0	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	8	5	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	7	6	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am	11	2	0

Gasgliadau			
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	13	0	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	12	0	1
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	10	3	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	9	3	1
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	12	1	0

Yn y modiwl hwn, aseswyd mai maes cryfaf y gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais oedd **2.1.1 Polisi Datblygu Casgliadau**, sy'n adlewyrchu'r arfer cyffredinol o fabwysiadu polisïau casglu ar draws y sector, a gwaith pellach i adolygu'r potensial i gasglu'n weithredol. Roedd 62% o'r gwasanaethau a gyflwynodd gais wedi cyflawni'r gofyniad **2.2.2 Cynlluniau Datblygu Casgliadau**. Roedd diffyg lle i ehangu, a oedd yn cyfyngu ar y gallu i gasglu'n weithredol, yn fater arwyddocaol i'r gwasanaethau archifau a oedd yn weddill, er bod pob un wedi arddangos ymwybyddiaeth o'r potensial i ddatblygu casgliadau.

Mae Gwybodaeth am Gasgliadau yn faes y mae angen i'r gwasanaethau archifau ei ddatblygu fwyaf er mwyn cyrraedd y safon ar lefel polisi. Nid yw hyn yn syndod, oherwydd nid yw dogfennaeth lefel polisi ar Wybodaeth am Gasgliadau wedi'i chynnwys yn safonau'r sector yn y gorffennol. Mae ymgeiswyr wedi bod yn dueddol o gyflwyno canllawiau gweithdrefnol yn gwneud ymrwymadau penodol i arfer da pan nad yw polisi wedi'i ddatblygu eto. Mae **2.3.2 Cynllunio Gwybodaeth am Gasgliadau** yn faes cryfach, gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi blaenoriaethu ôl-groniadau catalogio. Mae Asesiad wedi'i Gyflawni'n Rhannol fel arfer yn adlewyrchu lefel heriol iawn o ôl-groniad. Yn weithdrefnol, roedd yr ymgeiswyr yn gryf, yn sicrhau bod y staff a'r gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi'n dda ac yn derbyn cymorth priodol i ymgymryd â disgrifiad sy'n seiliedig ar safonau.

Ym maes Gofalu am Gasgliadau, roedd y gwasanaethau'n ymwybodol iawn ar y cyfan bod cyfyngiadau o ran ansawdd y gwasanaeth cadwraeth y gallant ei gynnig. Mae asesiad Cyflawni'n Rhannol o ran polisi neu weithdrefnau yn yr adran hon yn adlewyrchu proses effeithiol a pharhaus o reoli anawsterau storio, ac mae'r Panel Achredu wedi gosod hyn fel cynsail. Roedd gan rai gwasanaethau ddiffyg blaenoriaethau o dan **2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau**, a oedd yn cyfyngu ar effaith yr ymyriadau y gallant eu gwneud i wella cadwraeth. **2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau**: pan aseswyd Nad oedd hyn wedi'i Gyflawni, mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth o ddiffyg proses o nodi a rheoli risg.

2013 i fis Mai 2015	Wedi'i gyflawni	Cyflawni'n rhannol	Heb ei gyflawni
1.1 Rheoli Casgliadau	26	1	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	26	1	0

2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	21	6	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	17	10	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	18	9	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	25	2	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	24	2	1
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	22	5	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	17	9	1
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	26	1	0

Ers lansio Achrediad y Gwasanaeth Archifau ym mis Mehefin 2013, mae'r gwasanaethau archifau sydd wedi cyflwyno cais wedi arddangos cryfder yn y prosesau rheoli casgliadau yn gyffredinol, ar lefel polisi ym meysydd Datblygu Casgliadau a Gofalu am Gasgliadau, Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau a Chynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb.

Mewn nifer o achosion, mae'r diffyg gofod i ehangu, sy'n rhwystro'r gallu i gasglu'n rhagweithiol, wedi'i adlewyrchu yn yr asesiad cyffredinol ar gyfer gofyniad **2.2.2 Cynlluniau Datblygu Casgliadau**. Mae Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau yn faes cymharol newydd i'r sector archifau, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yma. Mae ôl-groniadau catalogio arwyddocaol wedi'u hadlewyrchu unwaith eto yn natur yr asesiadau yng ngofyniad **2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau**.

2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau: aseswyd bod 63% o'r gwasanaethau archifau a gyflwynodd gais yn cyflawni'r gofyniad hwn. Cafodd y gofyniad hwn ei gyflawni'n rhannol fel arfer oherwydd amodau amgylcheddol yn yr archifdai, neu risgiau eraill a oedd yn cael eu rheoli yn yr hirdymor yn yr amgylchedd storio.

c) Gofyniad: Rhanddeiliaid a'u Profiadau

Mae'r modiwl hwn yn gwirio gallu gwasanaeth archifau i ddarparu a datblygu mynediad i'w gasgliadau, mewn ymateb i anghenion ei gymuned.

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Wedi'i gyflawni	Cyflawni'n rhannol	Heb ei gyflawni
3.1 Polisi Mynediad	13	0	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	12	1	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	13	0	0

3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	13	0	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	13	0	0

Llwyddodd pob un o'r tri ar ddeg o wasanaethau archifau a gyflwynodd gais i gyflawni pedwar o'r saith gofyniad neu is-ofyniad yn y modiwl hwn. Yn gyffredinol, roedd y gwasanaethau archifau yn arddangos ymrwymiad i gael mynediad ar lefel polisi, ymwybyddiaeth o'r materion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chaniatáu mynediad a gweithdrefnau arferol ac amrywiaeth o ddulliau i gael mynediad at y casgliadau.

O dan ofyniad 3.2 Cynlluniau a chynllunio mynediad, llwyddodd 77% o'r gwasanaethau i gyflawni'r tri is-ofyniad yn y gofyniad hwn. O ran y rhai na wnaethant lwyddo i'w cyflawni, ystyriwyd nad oedd gweithgareddau'r gwasanaeth archifau yn ddigon datblygedig yn y meysydd canlynol; deall anghenion y rhai y nodwyd yn y gymuned nad oeddent yn defnyddio'r gwasanaeth, datblygu dadansoddiad o gynulleidfaoedd ar-lein a datblygu gwaith cynllunio pellach ar gyfer cynulleidfaoedd newydd yn unol â chenhadaeth y gwasanaeth archifau.

2013 i fis Mai 2015	Wedi'i gyflawni	Cyflawni'n rhannol	Heb ei gyflawni
3.1 Polisi Mynediad	24	3	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	26	1	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	26	1	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	26	1	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	27	0	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	26	1	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	27	0	0

Gellir esbonio lledaeniad y gofynion a'r is-ofynion a aseswyd fel yn y sylw uchod. Yn achos gofyniad 3.1 Polisi Mynediad, i'r gwasanaethau archifau hynny a oedd wedi cyflawni'r gofyniad hwn yn rhannol, roedd hyn wedi digwydd oherwydd bod angen cymeradwyo'r polisi yn ffurfiol, yr angen i gynnwys cyfyngiadau mynediad yn y polisi

mynediad ac absenoldeb polisi mynediad cyffredinol. Mae'r ymgeiswyr hynny sy'n cymryd mwy o amser i wneud cais wedi gwella'n sylweddol yn y maes hwn.

7) Camau Gweithredu Gofynnol a Gwella

Mae pob gwasanaeth archifau yn derbyn adborth ar eu cais gan wasanaeth Achredu'r Gwasanaeth Archifau, sy'n dangos sut mae eu gwasanaeth archifau yn perfformio yn erbyn pob un o ofynion y safon. Mae rhan o'r adborth hwn ar ffurf camau gweithredu gofynnol a chamau gweithredu gwella, sy'n darparu arweiniad ar sut y gall y gwasanaeth gyflawni'r safon yn uwch. Mae'n rhaid cyflawni Camau Gweithredu Gofynnol er mwyn parhau i fodloni'r safon a chadw Achrediad y Gwasanaeth Archifau yn y dyfodol. Mae'r Camau Gweithredu Gwella yn cefnogi gwaith datblygu'r gwasanaeth archifau.

Yn ôl gofyniad

Mehefin 2014 i fis Mai 2015	Camau Gweithredu Gwella	Camau Gweithredu Gofynnol
1.1	0	0
1.2	4	0
1.3	0	2
1.4	15	8
1.5	1	0
1.6	4	0
2.1	3	0
2.2.1	4	0
2.2.2	8	1
2.3.1	5	0
2.3.2	2	1
2.3.3	1	0
2.4	7	3
2.4.1	3	0
2.4.2	0	3
2.4.3	2	2
2.4.4	0	4
3.1	4	0
3.2.1	0	0
3.2.2	0	0
3.2.3	2	0
3.3.1	3	0
3.3.2	2	0
3.3.3	2	0

Yn ôl modiwl

Mehefin 2014 i fis	Camau Gweithredu	Camau Gweithredu
---------------------------	-------------------------	-------------------------

Mai 2015	Gwella	Gofynnol
Iechyd Sefydliadol	24	10
Casgliadau	35	14
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	13	0

Cafodd cyfanswm o ddau ddeg pump o gamau gweithredu gofynnol a saith deg chwech o gamau gweithredu gwella eu nodi gan aseswyr yn ystod y broses asesu rhwng Mehefin 2014 a Mai 2015.

a) Camau gweithredu gofynnol:

Themâu cyffredin

- *Datblygu gofod storio newydd a gwella'r amodau amgylcheddol yn yr ardaloedd storio*
- *Profi cynllun trychineb*
- *Gwella dulliau rheoli risgiau a gweithdrefnau gofalu am gasgliadau*

Iechyd Sefydliadol: Yn y maes hwn, roedd camau gweithredu gofynnol yn cwmpasu nifer o themâu gwahanol:

- angen brys am ofod storio naill ai ar gyfer cofnodion analog neu ddigidol (neu'r ddau)
- gwella'r ddogfennaeth a'r gweithdrefnau ar gyfer datblygu blaengynlluniau i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd yn y dyfodol

Casgliadau: Nododd yr aseswyr y nifer fwyaf o gamau gweithredu gofynnol yn y modiwl hwn. Roedd y camau gweithredu yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- cadwraeth a rheoli risgiau mewn storfeydd, yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol (mae hyn yn gam gweithredu gorfodol ar gyfer gwasanaethau nad oes ganddynt ofod storio sy'n cydymffurfio'n llwyr â PD5454)
- cwblhau a phrofi cynlluniau brys
- gweithgareddau datblygu casgliadau yn cael eu llesteirio gan ddiffyg gofod storio

Rhanddeiliaid a'u Profiadau: Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu gofynnol yn y maes hwn. Bu'r aseswyr yn trafod yr anhawster o bennu camau gweithredu gofynnol yn y modiwl hwn yn eu cyfarfod blynyddol (Gorffennaf 2014), a nodwyd diffyg safonau penodol a'r angen am hyblygrwydd yn sgil y cymunedau gwahanol y mae pob gwasanaeth yn gweithio gyda hwy fel rhan allweddol o'r achos. Mae hefyd yn wir fod ymgeiswyr yn darparu hanfodion mynediad yn ddiogel a chyfreithiol ym mhob achos, ac ystyrir bod anghenion y rhanddeiliaid yn flaenoriaeth.

b) Camau gweithredu gwella:

Themâu cyffredin

- *Adeiladu ar ddatblygiadau cadwraeth ddigidol*
- *Datblygu cynnig mynediad yn cynnwys allgymorth a dysgu*
- *Gwybodaeth ar-lein a mynediad o bell, yn cynnwys y catalog*
- *Polisiâu gwybodaeth am gasgliadau*
- *Dulliau storio a chadw gwell ar gyfer y gwasanaeth archifau*

lechyd Sefydliadol: Nodwyd nifer o gamau gweithredu gwella gan yr aseswyr yn y modiwl hwn. Roedd y camau gweithredu yn eithaf amrywiol ac yn fwy penodol i wasanaethau archifau unigol, ac yn cwmpasu holl ofynion y modiwl hwn yn y themâu canlynol: ymgysylltu â'r corff llywodraethu ac uwch aelodau o staff; arallgyfeirio cyllid a datblygu gwirfoddoli yn gynaliadwy; gwneud staff dros dro yn rhai parhaol i ymestyn y cynnig mynediad; unwaith eto, roedd storio, ystafelloedd a chadwraeth ddigidol yn bwyntiau gweithredu a oedd yn ymddangos dro ar ôl tro.

Casgliadau: Nodwyd y nifer fwyaf o gamau gweithredu gwella ar gyfer y gwasanaethau archifau gan yr aseswyr mewn cysylltiad â'r gofynion yn y modiwl hwn (sydd â'r nifer fwyaf o ofynion). Mae'r camau gweithredu yn ymwneud â chynnal gwerthusiad i sicrhau bod gofod digonol ar gyfer ehangu, gwella'r polisiâu gwybodaeth am gasgliadau, datblygu dulliau cadwraeth ddigidol, egluro'r polisiâu casglu a gwaith cynllunio ac adolygu gwell o weithdrefnau, datblygu catalog ar-lein a mynd i'r afael ag ôl-groniadau catalogio. Roedd y diffyg gwybodaeth cyffredinol am y Polisiâu Gwybodaeth am Gasgliadau hefyd yn ffactor.

Rhanddeiliaid a'u Profiadau: Nodwyd y nifer leiaf o gamau gweithredu gwella gan yr aseswyr yn y modiwl hwn. Roedd y camau gweithredu a nodwyd yma unwaith eto yn fwy tebygol o fod yn benodol i wasanaeth archifau unigol ac roeddent yn cwmpasu'r themâu canlynol: adolygiad o'r oriau agor, cyhoeddi gwybodaeth a pholisiâu ar-lein, adolygu'r polisi mynediad, datblygu mynediad at gofnodion digidol a datblygu gweithgareddau allgymorth ar draws y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu.

8. Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector archifau

Materion cyffredinol sy'n peri pryder ynglŷn â chyflwr y sector

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2014 a mis Mai 2015, nodwyd rhai themâu cyffredin gan Baneli Achredu'r Gwasanaeth Archifau, yn dilyn yr asesiadau o wasanaethau niferus:

- Nodwyd bod gwasanaeth tân yn tynnu eu cefnogaeth yn ôl i gael eu galw allan pan fydd larwm awtomataidd yn canu, oni fydd person yn cadarnhau hynny. Mae hyn yn cyflwyno goblygiadau rheoli risg mawr ac amlwg, yn arbennig os nad yw'r cysylltiadau brys yn byw ar y safle. Deellir fod pum gwasanaeth tân arall wedi gwneud penderfyniadau tebyg mewn ymateb i ostyngiadau yn eu cyllidebau.

- Nodwyd bod gwasanaethau wedi cadw cofnodion eu rhiant-sefydliad mewn ardaloedd storio yr oeddent yn cyfaddef eu hunain nad oeddent cystal â'r ardaloedd a ddefnyddiwyd ganddynt i storio deunydd a gasglwyd yn allanol. Er bod hyn yn cael ei gyfiawnhau'n aml drwy ddadlau bod y rhiant-sefydliad wedi penderfynu'n fwriadol i beidio talu am amodau gwell, mae'n golygu derbyn bod llai o werth gan gofnodion o'r fath – sef diben craidd y gwasanaeth.
- Nodwyd pryderon parhaus ynglŷn ag effaith ymddeoliadau cynnar ar y proffesiwn yn ystod cyfnodau o ailstrwythuro'r gwasanaeth a'r wybodaeth broffesiynol a oedd yn cael ei cholli yn sgil hynny.

Atodiad

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ystadegol ychwanegol am Achrediad y Gwasanaeth Archifau sydd wedi'i chynnwys at ddibenion cyfeirio, sy'n gysylltiedig â cheisiadau am Achrediad y Gwasanaeth Archifau o 2013 i fis Mai 2014. Gallai fod yn ddefnyddiol cymharu'r wybodaeth ystadegol yma a'r wybodaeth ystadegol yn y prif adroddiad.

1 Ceisiadau yn ôl math o wasanaeth archifau

<u>2013 i fis Mai 2014</u>	<u>Lloegr</u>	<u>Gogledd Iwerddon</u>	<u>Ar Alban</u>	<u>Cymru</u>
Awdurdod lleol math 1	0	0	1	0
Awdurdod lleol math 2	6	0	0	0
Sector cyhoeddus arall math 1	1	0	0	1
Sector cyhoeddus arall math 2	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 1	0	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 2	1	0	0	0
Sector preifat a'r trydydd sector math 3	3	0	0	0

2) Nifer yr ymweliadau dilysu mewn ymateb i geisiadau

<u>2013 i fis Mai 2014</u>	<u>Lloegr</u>	<u>Gogledd Iwerddon</u>	<u>Yr Alban</u>	<u>Cymru</u>
le	13	0	1	1
Na	1	0	0	0

3) Nifer y gwasanaethau archifau a dderbyniodd statws achrededig

<u>2013 i fis Mai 2014</u>	<u>Cyfanswm</u>	<u>Lloegr</u>	<u>Gogledd Iwerddon</u>	<u>Yr Alban</u>	<u>Cymru</u>
Achrediad	12	10	0	1	1
Achrediad Dros Dro	2	2	0	0	0
Dim Achrediad	0	0	0	0	0

4) Cyflawniad ar lefel modiwl

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
Iechyd Sefydliadol	14	0	0
Casgliadau	11	3	0
Rhanddeiliaid a'u Profiadau	14	0	0

5) Cyflawniad ar y lefel ofynnol

Iechyd Sefydliadol

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Datganiad Cenhadaeth	14	0	0
1.2 Llywodraethu	14	0	0
1.3 Blaengynllunio	12	2	0
1.4 Adnoddau: Adeiladau	12	2	0
1.5 Adnoddau: Cyllid	14	0	0
1.6 Adnoddau: Gweithlu	14	0	0

Casgliadau

<u>2013 i fis Mai 2014</u>	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
1.1 Rheoli Casgliadau	13	1	0
2.2.1 Polisi Datblygu Casgliadau	13	1	0
2.2.2 Cynllun Datblygu Casgliadau	13	1	0
2.3.1 Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau	10	4	0
2.3.2 Cynllun Gwybodaeth am Gasgliadau	7	7	0
2.3.3 Gweithdrefnau Gwybodaeth am Gasgliadau	12	2	0
2.4.1 Polisi Gofalu am Gasgliadau	12	2	0
2.4.2 Cynllun Gofalu am Gasgliadau	12	2	0
2.4.3 Gweithdrefnau Gofalu am Gasgliadau	8	6	0
2.4.4 Cynllun a Gweithdrefnau Adfer mewn Trychineb	14	0	0

Rhanddeiliaid a'u profiadau

2013 i fis Mai 2014	Wedi'i Gyflawni	Cyflawni'n Rhannol	Heb ei Gyflawni
3.1 Polisi Mynediad	11	3	0
3.2.1 Deall Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.2.2 Dadansoddi Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.2.3 Cynllunio ar gyfer Cynulleidfaoedd	14	0	0
3.3.1 Gwybodaeth am Fynediad	14	0	0
3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer mynediad i ddefnyddwyr	13	1	0
3.3.3 Amrywiaeth o ddulliau mynediad	14	0	0

6) Camau gweithredu Gofynnol a chamau gweithredu Gwella a bennwyd

2013 i fis Mai 2014	Camau gweithredu gofynnol a bennwyd	Camau gweithredu gwella a bennwyd
1.1	1	1
1.2	1	3
1.3	0	4
1.4	0	11
1.5	0	4
1.6	1	6
2.1	0	4
2.2.1	1	0
2.2.2	0	2
2.3.1	1	2
2.3.2	0	1
2.3.3	0	0
2.4.1	1	3
3.1	0	8
3.2.1	0	0
3.2.2	0	0
3.2.3	0	3
3.3.1	0	1
3.3.2	2	3
3.3.3	0	3